## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**Amcanion polisi**

Nod cyffredinol y Bil yw cyflwyno mesurau a fydd yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr amgylchedd aer yng Nghymru a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi.

Mae angen ystyried y Bil mewn cyd-destun eang, yn hytrach nag ar wahân. Mae'n:

- rhan hanfodol o becyn o fesurau sydd yn ein Cynllun Aer Glân i leihau llygredd yn yr awyr a gwella'r amgylchedd aer yng Nghymru;
- adeiladu ar ddeddfwriaeth bresennol; ac
- ategu deddfwriaeth i gyflawni seinweddau priodol fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-2023.

Drwy gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, rydym yn ceisio gwneud y cyfraniad mwyaf posibl hefyd at egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (WFGA) i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Bil wedi'i seilio'n gadarn yn y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.

Bydd y Bil yn hwyluso gwelliannau i ansawdd ein hamgylchedd aer ar lefel Cymru gyfan, ar lefel leol a rhanbarthol ac mewn cymdeithas drwyddi draw. Bydd yn cyfrannu at ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd, law yn llaw ag ymdrechion i leihau anghydraddoldebau.

Datblygwyd y cynigion ar gyfer y Bil gan ystyried sut mae angen i bolisi gyfrannu at iechyd a lles plant a phobl ifanc a chydymffurfio â hawliau'r plentyn fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

Rydym wedi casglu manylion nifer o astudiaethau a phapurau ymchwil ar effeithiau llygredd aer ar bobl ifanc, fel sydd wedi'u rhestru isod.

Astudiaethau a Phapurau Ymchwil

- Association between air pollution and lung function growth in southern California children: Results from a second cohort. *Am J Respir Crit Care Med.* 2002.
- 166: 76-84. Gauderman WJ, Avol E, Gilliland F, Vora H, Thomas D, Berhane K, McConnell R, Küenzli N, Lurmann F, Rappaport E, Margolis H, Bates D, Peters J[1].
- Childhood Asthma: Diagnosis and Treatment. Wim M van Aalderen[2]
- The influence of ambient coarse particulate matter on asthma hospitalization in children: Case-crossover and time-series analyses.

---

[1] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/12091175

[2] https://www.nejm.org/doi/full/10.1056/NEJMoa040610

*Environ Health Perspect.* 2002; 110: 575-581 Mei Lin, Yue Chen, Richard T. Burnett, Paul J Villeneuve, Daniel Krewski.[3]

- An association between fine particles and asthma emergency department visits for children in Seattle. *Environ Health Perspect*. 1999; 107: 489-493., Norris G, YoungPong SN, Koenig JQ, Larson TV, Sheppard L, Stout JW.[4]
- Air quality and pediatric emergency room visits for asthma in Atlanta, Georgia. *Am J Epidemiol.* 2000; 151: 798-810. Tolbert PE, Mulholland JA, Macintosh DL, Xu F, Daniels D, Devine OJ, Carlin BP, Klein M, Butler AJ, Nordenberg DF, Frumkin H, Ryan PB, White MC[5]
- Effects of ambient air pollution on symptom severity and medication use in children with asthma *Ann Allergy Asthma Immunol.* 2003; 91: 346-353. Slaughter JC, Lumley T, Sheppard L, Koenig JQ, Shapiro, GG.[6]
- An analysis of the association between respiratory symptoms in subjects with asthma and daily air pollution in Spokane, Washington. *Inhal Toxicol*. 2004; 16: 809-815; Peel JL, Tolbert PE, Klein M, Metzger KB, Flanders WD, Knox T, Mulholland JA, Ryan PB, Frumkin H.[7]
- Ambient air pollution and respiratory emergency department visits. *Epidemiology*. 2005; 16: 164-174. Szyszkowicz M, Kousha T, Castner J, Dales R[8]
- Clean Air Day 2020: Air pollution and children's learning (philips.co.uk)
- Sefydliad Iechyd y Byd. Swyddfa Ranbarthol Ewrop. (2011). Burden of disease from environmental noise: quantification of healthy life years lost in Europe. Sefydliad Iechyd y Byd. Swyddfa Ranbarthol Ewrop. https://apps.who.int/iris/handle/10665/326424

Roedd plant a phobl ifanc yn gynulleidfa darged ar gyfer yr ymarfer ymgynghori ar y Cynllun Aer Glân drafft (a oedd yn cynnwys y cynigion gwreiddiol ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru). Aeth swyddogion i gyfarfod Senedd Ieuenctid Wrecsam ar 24 Chwefror 2020 i gael adborth ar y Cynllun. Roedd eu pryderon yn canolbwyntio ar leihau amlygiad pobl ifanc i lygredd aer. Yn ystod trafodaethau, gwnaethant ddweud bod ganddynt lai o ddiddordeb mewn fframweithiau neu newid polisi nag oedd ganddynt mewn newidiadau ymarferol y gallent eu gwneud yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a gwybodaeth ynghylch sut mae newidiadau'n cael eu gwneud a'u heffaith. Dylanwadodd hyn yn uniongyrchol ar y Bil drwy roi mwy o bwyslais ar ddyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer.

O ran gwaith ar dargedau i'r dyfodol a'r Cynllun Aer Glân arfaethedig nesaf i Gymru, bydd mwy o ffocws ar fesurau ymarferol ac ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch sut y

---

[3] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC1240873/

[4] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/10339450

[5] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/10965977

[6] https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S108112061061681X

[7] https://www.researchgate.net/publication/51366198

[8] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/29459308

gallant wneud gwahaniaeth. Mae adborth mwy cynhwysfawr wedi'i gynnwys yn nogfen crynodeb o ymatebion y Cynllun Aer Glân. Buom yn gweithio gydag UNICEF wrth ddatblygu cynigion hefyd.

Ym mis Hydref 2022, sefydlwyd cysylltiadau â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ar ein cynigion ar gyfer y Bil a'r arfer gorau i gyflawni dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau plant. Rydym yn parhau i fanteisio ar arbenigedd y grŵp drwy broses y Bil ac mewn perthynas â gweithredu.

Rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddfa'r Comisiynydd Plant hefyd wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Bil i ofyn am eu hadborth a'u barn. Byddwn yn parhau â'r berthynas waith hon wrth i ni symud ymlaen drwy broses y Bil a symud tuag at weithredu. Mae swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi cael gwahoddiad i eistedd ar Banel Cynghori ar Aer Glân Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y gall llais pobl ifanc gael ei ystyried wrth i ni ddatblygu a gweithredu ein polisi i gyflawni gwelliannau i ansawdd aer nawr ac yn y dyfodol.

**Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith**

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn dderbynyddion sensitif i lygredd aer. Mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yn gallu dioddef mwy o sgil-effeithiau o anadlu aer o ansawdd gwael nag oedolion.

Mae tystiolaeth yn dangos hefyd bod ardaloedd o amddifadedd lluosog yn tueddu i ddangos lefelau uwch o lygredd aer ac annifyrrwch sŵn. Rydym yn rhagweld y bydd gweithredu Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles plant sy'n byw mewn tlodi o ran eu hiechyd a'u lles cyffredinol. Bydd effaith gweithredu'r Bil ar blant a phobl ifanc yn cael ei asesu wrth ei weithredu, er enghraifft, pan fydd targedau'n cael eu gosod o dan y rheoliadau targedau ansawdd aer cenedlaethol.

Bydd y cynigion ym Mil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn cynyddu'r hawl i iechyd drwy leihau llygredd aer a sŵn a'r risgiau cysylltiedig i iechyd a chyrhaeddiad addysgol plant. Mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod gwelliannau yn yr amgylchedd aer yn arwain at well canlyniadau iechyd i blant a phobl ifanc.

Mae ein cynigion yn gwella hawliau'r plentyn fel y nodir gan erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Gweithredol fel y'u nodir isod.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3<br><br>Budd pennaf y plentyn | X | | O dan Erthygl 3, rydym wedi sicrhau bod datblygiad cynigion y Bil wedi bod yn gyson ag erthygl 3. Mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn dderbynyddion sensitif i lygredd yn yr awyr. Bydd y cynigion yn y Bil, pan fyddant yn cael eu gweithredu, yn arwain at welliannau mewn ansawdd aer yng Nghymru sydd er budd pennaf plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ymweld â Chymru. Wrth symud ymlaen, byddwn yn sicrhau bod budd pennaf y plentyn yn ystyriaeth allweddol wrth weithredu'r Bil hwn. |
| Erthygl 6<br><br>Bywyd, goroesiad a datblygiad | X | | Mae amgylchedd aer da yn cefnogi cyflawni erthygl 6 gan fod gwelliannau i ansawdd aer a seinwedd yn cefnogi iechyd plant a phobl ifanc ac yn sicrhau eu hawl cynhenid i fywyd. |
| Erthygl 12<br><br>Parchu barn plant | X | | Yn ystod datblygiad y Cynllun Aer Glân, gofynnwyd am farn plant a phobl ifanc yn Senedd Ieuenctid Wrecsam. Cafodd safbwyntiau a fynegwyd yn y sesiwn honno eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y Bil. Byddwn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc roi eu barn wrth i ni weithredu'r Bil. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant i ofyn am gyngor ar y ffordd orau o gyflawni dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant. |
| Erthygl 13<br>Rhyddid mynegiant ac<br>Erthygl 17<br>Mynediad at wybodaeth | X | | Bydd gweithredu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at ddata a gwybodaeth o ansawdd uchel. Drwy weithredu'r ddyletswydd codi ymwybyddiaeth, byddwn yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u cynrychiolwyr i nodi a darparu gwybodaeth, adnoddau a chyfleoedd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn hyderus yn eu dealltwriaeth o ffynonellau, effeithiau a chamau lliniaru llygredd aer. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 23<br>Plant ag anableddau | x | | Mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn dderbynyddion sensitif i lygredd aer. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd bod pobl sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol neu gronig penodol megis asthma neu glefyd yr ysgyfaint yn fwy agored i effeithiau llygredd aer hefyd. Bydd y Bil, pan gaiff ei weithredu, yn gwella ansawdd aer yng Nghymru a allai wella ansawdd bywyd plant anabl, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o anhwylder anadlu. |
| Erthygl 24<br>Iechyd a gwasanaethau iechyd | X | | Nod y Bil yw lleihau effaith ansawdd aer gwael a sŵn ar iechyd plant a allai leihau'r pwysau mae materion sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn ei roi ar y gwasanaethau iechyd hefyd. |
| Erthygl 27<br>Safon byw ddigonol | X | | Nod y Bil yw lleihau effaith ansawdd aer gwael a sŵn ar iechyd plant a phobl ifanc drwy leihau'r posibilrwydd o lygredd yn yr awyr yn achosi niwed datblygiadol i bobl ifanc. |
| Erthygl 31<br>Gorffwys, chwarae, diwylliant, y celfyddydau | X | | Bydd y Bil yn cefnogi gwelliant i ansawdd aer a seinwedd a fydd yn helpu i wella ansawdd gweithgareddau hamdden awyr agored a phrofiad plant ohonynt. |

**Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog**

Mae ein canfyddiadau a'n dadansoddiad o’r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'u hintegreiddio yn ein cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.

**Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc**

Rydym wedi ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ar gynigion y Bil ac wedi trafod y ffordd orau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gyda nhw wrth weithredu'r Bil i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar Hawliau Plant. Bydd y cyswllt hwnnw'n cael ei gynnal drwy broses y Bil ac wrth ei weithredu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Plant drwy gydol y broses weithredu hefyd er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio'r holl gyfryngau sydd ar gael i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Bydd angen ymgynghoriad llawn i weithredu rhai elfennau o'r Bil a bydd plant a phobl ifanc neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses hon. Rydym yn bwriadu hyrwyddo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil drwy gyfryngau priodol hefyd, er enghraifft, rydym yn ystyried opsiynau i ddefnyddio Hwb i

gyfathrebu ag ysgolion. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddull yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried y mecanweithiau mwyaf priodol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

**Monitro ac Adolygu**

Mae'r Rhaglen Aer Glân yn olrhain ac yn adolygu polisïau sy'n gysylltiedig ag aer glân a'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Bydd y rhaglen yn parhau i oruchwylio gweithredu'r Bil, yn ogystal â pholisïau ansawdd aer a seinwedd sy'n bodoli eisoes. Os bydd unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth yn cael ei derbyn drwy'r broses hon a fydd yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc, caiff y ddogfen ei hadolygu a'i diwygio os yn briodol.